**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Commttee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Rhodri Williams
Cadeirydd
Siân Doyle
Prif Weithredwr
S4C

12 Hydref 2023

**Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru**

Annwyl Rhodri a Siân

Diolch i chi am ymddangos gerbron cyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher, 4 Hydref 2023, i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Roeddem yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd gennych yn ystod ein sesiwn, a hoffem ddilyn hyn gyda chais am wybodaeth ychwanegol.

Yn ystod y cyfarfod, fe ofynnon ni gwestiynau i chi ynghylch gwariant S4C yng Nghymru. Yn ystod ein cyfarfod fe nodoch fod yr holl gwmnïau rydych chi'n gweithio gyda nhw yn frodorol i Gymru. Fodd bynnag, mae eich adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23 yn nodi bod y swm rydych chi'n ei wario y tu allan i Gymru wedi cynyddu o 1 y cant yn 2021-22 i 2 y cant yn 2022-23. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu beth sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb cyn bo hir.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.